

Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 / 2 CBAC

Cwestiynau Cyffredin (Cymru) (Diweddarwyd Hydref 2016)

Gwybodaeth am Ddyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC	3
Beth yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC?	3
Pa bynciau sydd ar gael?	3
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Dyfarniad a Thystysgrif?	3
Pa mor hir yw'r cwrs?	3
A oes modd addysgu'r cymwysterau hyn ar lefel CA4 ac ôl-16?	3
A yw'r cymwysterau hyn ar gael i ddysgwyr ar draws y DU?	4
Sut mae'r cymwysterau Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu graddio?	4
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cymwysterau hyn a TGAU?	4
Ymrestrïadau, Cofrestrïadau a Chanlyniadau	4
Lle gallaf ddod o hyd i'r rhif QAN?	4
Sut ydw i'n ymrestru dysgwyr?	4
Lle gallaf ddod o hyd i'r codau cofrestru?	4
Pryd ydw i'n cofrestru?	4
Rydym yn ganolfan newydd; sut gallwn ni ymrestru â CBAC?	4
Rydym eisoes yn ganolfan CBAC: a allwn ni gynnig Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol?	5
Lle mae gwybodaeth am ffioedd i'w gweld?	5
Pryd bydd ymgeiswyr yn derbyn eu canlyniadau?	5
Asesu allanol	5
Sut mae'r Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu hasesu'n allanol?	5
Pryd bydd arholiadau ar gael?	5
Oes cyn-bapurau ar gael?	5
Beth yw asesiad dan reolaeth allanol?	5
Pryd bydd yr asesiad dan reolaeth allanol ar gael?	5
Lle gallaf ddod o hyd i'r aseiniad?	5
A fydd yr aseiniad yn newid bob blwyddyn?	6
A yw'r ymgeiswyr yn cael cwblhau'r asesiad mewn mwy nag un sesiwn?	6

A yw'r dysgwyr yn cael ailsefyll yr asesiad dan reolaeth allanol?.....	6
Beth yw'r rheolaethau'n ymwneud â'r asesiad dan reolaeth allanol?	6
A oes aseiniadau allanol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gael?	6
Asesiad Mewnol.....	6
Sut mae'r Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu hasesu'n fewnol?.....	6
Beth yw asesu dan reolaeth?	6
Pa bryd bydd y tasgau asesu dan reolaeth yn cael eu dosbarthu i'r canolfannau?	6
Ydw i'n cael newid y briff?	6
A yw tasgau asesiad dan reolaeth yn gallu cael eu cwblhau ym Mwyddyn 10?	6
Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sampl o'r tasgau asesu dan reolaeth i safonwr CBAC? ...	7
Beth ddylwn i ei wneud os oes oedi wrth gyflwyno'r sampl i'w safoni?.....	7
A ddylid rhannu'r meini prawf marcio â'r myfyrwyr?	7
Oes modd i fyfyrwr ailsefyll tasg asesu dan reolaeth?	7
Beth yw'r amodau ar gyfer cynnal yr asesiad dan reolaeth?.....	7
A ddylai tasgau asesu dan reolaeth gael eu gwneud o dan amodau arholiad arferol?	7
Faint o adborth a ddylid ei roi i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod asesu dan reolaeth?	7
Pa ddeunydd cyfeirio sy'n cael ei ganiatáu yn ystod y sesiynau asesu dan reolaeth?.....	7
Sut mae'r gwaith yn cael ei asesu?	8
Ble mae cynllun marcio'r asesiad?	8
Sut ydw i'n cyfrifo beth mae'r ymgeisydd wedi'i gyflawni, yn gyfan gwbl, am uned?.....	8
A oes rhaid i ni gymedroli'n fewnol?	8
Pa ddogfennaeth y mae'n rhaid ei chwblhau?.....	8
Sut ydw i'n cyflwyno marciau fy ymgeiswyr i CBAC?	8
Sut ydw i'n gwybod gwaith pa ymgeiswyr i'w anfon?.....	8
Lle gallaf ddod o hyd i fanylion fy safonwr?.....	8
Pryd ydw i'n cyflwyno'r gwaith?	9
A fyddwn yn derbyn adborth am ein gwaith cwrs?	9
Ariannu a Mesurau Perfformiad	9
A yw'r cymwysterau hyn wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru?.....	9
A yw'r cymwysterau hyn wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio cyn 16?	9
A oes modd ennill pwyntiau perfformiad am y cymwysterau Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yng Nghymru?	9
A yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cyfrannu tuag at y Mesurau Cymhwysol Lefel 2 (Bagloriaeth Cymru a Sylfaen)?	9
A yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cyfrannu tuag at y sgôr pwyntiau wedi'i gapio (9)?	10

Gwybodaeth am Ddyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC

Beth yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC yn gymwysterau lefel 1/2 sy'n galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth eang o sector galwedigaethol penodol. Yn ogystal â datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sector benodol, mae'r cymwysterau hyn hefyd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd hanfodol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr, addysg uwch ac addysg bellach.

Pa bynciau sydd ar gael?

Mae cymwysterau ar gael yn y pynciau canlynol ar hyn o bryd:

Pwnc	Dyfarniad	Tystysgrif
Gwyddoniaeth Gymhwysol*	✓	
Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig	✓	
Y Creadigol a'r Cyfryngau	✓	✓
Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig	✓	
Peirianeg	✓	
Gweithredu Digwyddiadau	✓	
Lletygarwch ac Arlwyyo	✓	
Cynllunio a Chynnal yr Amgylchedd Adeiledig	✓	
Busnes Adwerthu	✓	✓
Gwyddoniaeth i Weithio*	✓	
Chwaraeon	✓	✓
Twristiaeth	✓	✓

**Noder, mae Gwyddoniaeth Gymhwysol a Gwyddoniaeth i Weithio yn cael eu tynnu'n ôl. Bydd y cyfle asesu olaf yn haf 2017 a'r cyfle ailsefyll olaf yn Ionawr 2018.

Am ragor o wybodaeth, ewch i [dudalen we Cymwysterau Galwedigaethol](#) CBAC.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Dyfarniad a Thystysgrif?

Y gwahaniaeth rhwng Dyfarniad a Thystysgrif yw maint y cymhwyster. Mae Dyfarniadau Galwedigaethol hanner maint Tystysgrifau Galwedigaethol. Yn y pynciau lle mae Tystysgrif Galwedigaethol ar gael, mae'r Dyfarniad Galwedigaethol yn rhan o'r Dystysgrif ac felly mae hyn yn galluogi'r canolfannau i addysgu'r cymwysterau ar y cyd. Edrychwch yn y manylebau unigol am fwy o fanylion.

Pa mor hir yw'r cwrs?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol wedi cael eu llunio fel cyrsiau dwy flynedd ond nid yw hyn yn ofyniad gorfodol. Dylai canolfannau gymryd ystyriaeth o'r Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) a neilltuwyd i'r cymwysterau wrth benderfynu ar amser addysgu. Mae Dyfarniadau Galwedigaethol yn cynnwys 120ODA tra bod y Tystysgrifau yn cynnwys 240ODA. Mae'r oriau dysgu dan arweiniad hyn yn unol â chymwysterau Gradd Unigol a Dwyradd TGAU, a gallai hynny fod o gymorth i ysgolion a cholegau wrth iddynt amserlennu.

A oes modd addysgu'r cymwysterau hyn ar lefel CA4 ac ôl-16?

Mae ein Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol wedi'i llunio yn bennaf i'w defnyddio gyda dysgwyr Cyfnod Allweddol 4, ond gallent hefyd fod yn addas ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn amgylchedd coleg. Dylai'r canolfannau ystyried anghenion a galluoedd y dysgwyr unigol wrth benderfynu pa gymhwyster fyddai'n fwyaf addas ar eu cyfer.

A yw'r cymwysterau hyn ar gael i ddysgwyr ar draws y DU?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i ganolfannau fod yn ymwybodol o oblygiadau cymeradwyaeth cymhwyster penodol, tabl perfformiad ac ariannu'r wlad y maent yn cyflwyno'r cymwysterau ynddi.

Sut mae'r cymwysterau Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu graddio?

Mae ein Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu graddio fel Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod, Rhagoriaeth a Rhagoriaeth*.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cymwysterau hyn a TGAU?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol wedi cael eu llunio i ategu TGAU a chymwysterau Lefel 2 eraill. Maent yn ymestyn dros Lefel 1 a 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae cymwysterau Lefel 2 yn cyfateb yn fras i raddau TGAU A*– C yn nhermau'r gofynion gyda Lefel 1 yn cyfateb yn fras i raddau TGAU D – G. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad oes modd cymharu dau gymhwyster yn uniongyrchol oherwydd y gwahaniaethau o ran cynnwys, strwythur ac asesu.

Ymrestriadau, Cofrestriadau a Chanlyniadau

Lle gallaf ddod o hyd i'r rhif QAN?

Mae Rhifau Achredu'r Cymhwyster (QAN) wedi'u rhestru yn y fanyleb ar gyfer y cymhwyster penodol, gallwch ddod o hyd iddi ar dudalen gartref y pwnc.

Sut ydw i'n ymrestru dysgwyr?

Nid oes angen ymrestru dysgwyr ar gyfer y Tystysgrifau a Dyfarniadau Galwedigaethol ond mae'n rhaid eu cofrestru ar gyfer yr unedau perthnasol erbyn y dyddiad cau cofrestru. Mae'r cyhoeddiad *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* sydd ar gael ar wefan CBAC ar http://www.cbac.co.uk/exam-officers/entries/?language_id=2 yn darparu gwybodaeth fanwl am y gwahanol ffyrdd y gall canolfannau gyflwyno cofrestriadau. Siaradwch â'ch swyddog arholiadau neu cysylltwch ag adran gofrestriadau CBAC ar cofrestru@cbac.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Lle gallaf ddod o hyd i'r codau cofrestru?

Gallwch ddod o hyd i'r codau cofrestru ar gyfer bob manyleb yn y *cyhoeddiad Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau*; mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am holl gymwysterau CBAC, gan gynnwys codau cofrestru, codau cyfnewid a dyddiadau cau cofrestru. Gallwch weld y ddogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn yr adran Gofrestriadau ar wefan CBAC http://www.cbac.co.uk/exam-officers/entries/?language_id=2.

Pryd ydw i'n cofrestru?

Mae'n rhaid cyflwyno cofrestriadau ar gyfer Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol erbyn **21 Chwefror** bob blwyddyn. Anogir canolfannau i gyflwyno'r cofrestriadau'n gynnar i sicrhau bod unrhyw ymholiadau'n gallu cael eu datrys cyn y dyddiad cau cofrestru. Gall ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau cofrestru arwain at orfod talu Ffi Hwyr neu Ffi Hwyr lawn ac ni fydd cofrestriadau'n cael eu derbyn unwaith bydd y diwrnod olaf ar gyfer derbyn ffeiliau EDI wedi pasio.

D.S. Caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster pan fydd y ganolfan yn mewnbynnu'r cod agregu (cyfnewid cymhwyster). Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses Gofrestriadau a chodau cofrestru penodol ar wefan cofrestriadau CBAC: <http://www.wjec.co.uk/exam-officers/entries/>. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol fel Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni.

Rydym yn ganolfan newydd; sut gallwn ni ymrestru â CBAC?

I ymrestru fel canolfan gyda CBAC ar gyfer Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol, dylech gysylltu ag aelod o'n tîm cofrestru drwy ffonio 02920 2026 5077 / 5089 neu trwy anfon e-bost at centres@wjec.co.uk i drafod gofynion unigol eich canolfan chi ac i gael ffurflen ymrestru.

Rydym eisoes yn ganolfan CBAC: a allwn ni gynnig Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol?

Cyn i chi ddechrau cyflwyno'r Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol, dylech gysylltu ag aelod o'r tîm ymrestru canolfannau drwy ffonio 02920 2026 5077 / 5089 neu trwy anfon e-bost at centres@wjec.co.uk i sicrhau bod gan eich canolfan y lefel gywir o gymeradwyaeth canolfan.

Lle mae gwybodaeth am ffioedd i'w gweld?

Cyhoeddir ffioedd bob blwyddyn academiaidd yn y ddogfen *Ffioedd Cofrestru Cyffredinol a Galwedigaethol* CBAC a gellir dod o hyd iddi yn y dogfennau cysylltiedig yn yr adran Gofrestriadau ar wefan CBAC: <http://www.wjec.co.uk/exam-officers/entries/>.

Pryd bydd ymgeiswyr yn derbyn eu canlyniadau?

Mae canlyniadau Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu rhyddhau ym mis Awst (yr un diwrnod â TGAU). Bydd eich swyddog arholiadau'n gallu cael mynediad atynt trwy'r Ardd Furiog ar y wefan ddiogel.

Asesu allanol

Sut mae'r Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu hasesu'n allanol?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol CBAC yn cynnwys o leiaf un o'r mathau canlynol o asesu allanol:

- arholiad allanol wedi'i amserlennu neu,
- asesiad dan reolaeth allanol a fydd yn digwydd o fewn cyfnod asesu.

Arholwyr CBAC fydd yn marcio'r ddau.

Pryd bydd arholiadau ar gael?

Mae'r arholiadau allanol ar gael unwaith pob blwyddyn yng nghyfes yr haf. Mae dyddiadau ac amserau arholiadau penodol ar gael yn y ddogfen *Amserlenni Arholiadau a Therfynau Amser Asesu Mewnol* o dan y grŵp cymhwyster perthnasol (Lefel 1 / 2 galwedigaethol). Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen hon ar dudalen Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni ar wefan CBAC: http://www.cbac.co.uk/exam-officers/key-dates-and-timetables/?language_id=2.

A yw'r ymgeiswyr yn gallu ailsefyll yr arholiad?

Mae ymgeiswyr yn cael un cyfle i ailsefyll pob uned. Y canlyniad gorau o'r ddau ymgais fydd yn cyfrif tuag at radd gyffredinol y cymhwyster. Gall yr ymgeiswyr ailsefyll y cymhwyster cyfan nifer o weithiau.

Oes cyn-bapurau ar gael?

Oes, bydd cyn-bapurau a chynlluniau marcio ar gael i ganolfannau sydd wedi ymrestru â CBAC ar y wefan ddiogel ar ddiwedd y gyfres arholiadau. Bydd cyn-bapurau a chynlluniau marcio ar gael ar y wefan gyhoeddus, yn rhad ac am ddim, tua 6-9 mis ar ôl y gyfres arholiadau.

Beth yw asesiad dan reolaeth allanol?

Aseiniad wedi'i amseru a'i oruchwylio sy'n cael ei osod a'i farcio gan CBAC. Mae'n rhaid ei gwblhau o dan amodau dan reolaeth, ac o fewn y cyfnod asesu allanol a bennwyd gan CBAC.

Pryd bydd yr asesiad dan reolaeth allanol ar gael?

Bydd yr asesiad dan reolaeth allanol ar gael unwaith y flwyddyn yng nghyfes yr haf. Ni fydd ar gael cyn 1 Mai. Cyfeiriwch at y ddogfen *Amserlenni Arholiadau a Therfynau Amser Asesu Mewnol* i weld y cyfnod a amserlennwyd ar gyfer y flwyddyn academiaidd gyfredol. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen hon ar y dudalen Dyddiadau Allweddol ac Amserlenni ar wefan CBAC: http://www.cbac.co.uk/exam-officers/key-dates-and-timetables/?language_id=2.

Lle gallaf ddod o hyd i'r aseiniad?

Bydd yr aseiniad ar gael i'w lwytho i lawr o wefan ddiogel CBAC am 00:01 ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod asesu. Bydd Swyddogion Arholiadau yn cael gwybod pryd mae'r aseiniad ar gael i'w lwytho i lawr a

bydd neges yn cael ei rhoi ar dudalen gartref y pwnc ar wefan CBAC. Dim ond yn ystod y cyfnod asesu y bydd tasgau dan reolaeth ar gael i'w llwytho i lawr.

A fydd yr aseiniad yn newid bob blwyddyn?

Bydd. Bydd aseiniad newydd yn cael ei ysgrifennu ar gyfer bob blwyddyn academaidd.

A yw'r ymgeiswyr yn cael cwblhau'r asesiad mewn mwy nag un sesiwn?

Ydynt. Gall canolfannau amserlennu asesiadau ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod asesu sydd wedi'i ragnodi. Mae'n rhaid i'r holl ddeunyddiau (gan gynnwys gwaith ymgeiswyr) gael eu storio'n ddiogel yn y ganolfan, mewn cwpwrdd wedi'i gloi fel arfer, trwy gydol y cyfnod asesu. Rhaid casglu'r gwaith a wneir dros nifer o sesiynau ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel. Mae'n rhaid i waith sy'n cael ei gynhyrchu'n electronig gael ei arbed yn ddiogel i sicrhau nad yw'n gallu cael ei ddiwygio rhwng sesiynau. Dylai gwaith sy'n cael ei storio ar gof bach hefyd gael ei gasglu i mewn ar ôl pob sesiwn.

A yw'r dysgwyr yn cael ailsefyll yr asesiad dan reolaeth allanol?

Mae ymgeiswyr yn cael un cyfle i ailsefyll pob uned. Y canlyniad gorau o'r ddau ymgais fydd yn cyfrif tuag at radd gyffredinol y cymhwyster. Gall yr ymgeiswyr ailsefyll y cymhwyster cyfan nifer o weithiau.

Beth yw'r rheolaethau'n ymwneud â'r asesiad dan reolaeth allanol?

Mae asesiadau dan reolaeth allanol yn amodol ar amodau dan reolaeth sy'n benodol i'r briffiau aseiniad unigol. Mae'r holl amodau wedi'u nodi ym mhob briff aseiniad dan 'Gwybodaeth Canolfan', ac yn ymwneud ag amser, adnoddau, goruchwyliaeth a chydweithio.

A oes aseiniadau allanol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gael?

Oes, mae aseiniadau allanol a chynlluniau marcio'r gorffennol ar gael i ganolfannau cofrestredig CBAC ar y wefan ddiogel ar ddiwedd y gyfres arholiadau. Bydd aseiniadau allanol a chynlluniau marcio'r gorffennol ar gael ar y wefan gyhoeddus, yn rhad ac am ddim, tua 6-9 mis ar ôl y gyfres arholiadau.

Asesiad Mewnol

Sut mae'r Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu hasesu'n fewnol?

Mae Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cynnwys asesiadau dan reolaeth sy'n cael eu marcio'n fewnol gan y canolfannau a'u safoni'n allanol gan CBAC.

Beth yw asesu dan reolaeth?

Mae asesu dan reolaeth yn mesur dealltwriaeth benodol a sgiliau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu profi gan bapurau arholiad ysgrifenedig.

Pa bryd bydd y tasgau asesu dan reolaeth yn cael eu dosbarthu i'r canolfannau?

Mae'r canolfannau yn gallu cael mynediad at dasgau asesu dan reolaeth ar unrhyw adeg trwy [wefan ddiogel](#) CBAC. Ewch i Llwytho Adnoddau PDF i Lawr > Deunyddiau Asesu dan Reolaeth. Mae briffiau asesiad dan reolaeth o fewn y Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cael eu hadnabod fel Aseiniadau Model. Mae'n rhaid i athrawon sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r Aseiniad Model ac felly dylent lwytho'r Aseiniad Model i lawr o wefan ddiogel CBAC pan maent yn barod i ddechrau'r asesiad yn hytrach na defnyddio fersiwn wedi'i arbed yn flaenorol.

Ydw i'n cael newid y briff?

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau a wneir fodloni'r meini prawf sydd wedi'u hamlinellu yn 'Newidiadau a dderbynnir i'r aseiniad model hwn' yn y wybodaeth aseswr sy'n cael ei chynnwys yn yr aseiniad model. Os newidir y briff mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth o Sicrhau Ansawdd i CBAC ar adeg y safoni.

A yw tasgau asesiad dan reolaeth yn gallu cael eu cwblhau ym Mlwyddyn 10?

Gallant ond dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod asesiad dan reolaeth y Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol wedi cael eu dylunio fel asesiadau crynodol a dim ond ar ôl i'r holl addysgu ar gyfer yr uned benodol gael ei wneud y dylid gwneud yr asesiad. Dylai athrawon hefyd

gymryd i ystyriaeth bod ychydig o'r asesiadau dan reolaeth yn synoptig ac maent yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd ganddynt ar draws nifer o unedau. Felly, dylai canolfannau ystyried pa bryd y mae'n fwyaf priodol i ymgymryd â'r asesiad wrth iddyn nhw fynd ati i gynllunio'u cwricwlwm.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sampl o'r tasgau asesu dan reolaeth i safonwr CBAC?

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sampl i'w safoni yw **5 Mai** bob blwyddyn.

Beth ddylwn i ei wneud os oes oedi wrth gyflwyno'r sampl i'w safoni?

Dylai canolfannau gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau eu bod yn anfon y gwaith at y safonwr sydd wedi cael ei benodi ar eu cyfer erbyn 5 Mai. Os, o ganlyniad i amgylchiadau esgusodol, bod unrhyw oedi yn y broses o anfon y sampl i gael ei safoni, mae'n rhaid i'r ganolfan ysgrifennu at Swyddog Pwnc CBAC i roi gwybod iddynt am yr amgylchiadau a gofyn am estyniad i'r dyddiad cau. Ni ddylai canolfannau gymryd yn ganiataol y bydd estyniad yn cael ei roi tan y byddant yn derbyn ymateb gan y Swyddog Pwnc neu aelod awdurdodedig o staff CBAC. Lle mae estyniad wedi cael ei ganiatáu, gellir codi ffi ychwanegol am unrhyw samplau i'w safoni a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu byddant yn cael eu hanfon yn ôl i'r canolfannau heb eu marcio ac yna bydd angen ail gofrestru'r ymgeiswyr pan ddaw'r cyfle nesaf.

A ddylid rhannu'r meini prawf marcio â'r myfyrwyr?

Dylid. Dylai'r myfyrwyr fod yn ymwybodol o'r meini prawf marcio.

Oes modd i fyfyrwr ailsefyll tasg asesu dan reolaeth?

Oes. Mae ymgeiswyr yn cael un cyfle i ailsefyll cyn cyfnedw ar gyfer pob uned. Fodd bynnag, mae'n rhaid i waith a gyflwynir ar gyfer yr asesiad ailsefyll fod yn waith newydd. Ni all ymgeiswyr gyflwyno gwaith diwygiedig sydd wedi cael ei gyflwyno'n flaenorol.

Beth yw'r amodau ar gyfer cynnal yr asesiad dan reolaeth?

Mae briff yr Aseiniad Model yn nodi'r amodau ar gyfer cynnal pob aseiniad yn y rhan 'gwybodaeth i'r aseswr'. Bydd tri maes yn cael eu rheoli:

- Gosod Tasgau
- Cyflawni tasgau (Amser, Adnoddau, Goruchwyliaeth, Dilysu, Cydweithio)
- Marcio Tasgau

Mae'n **rhaid** cadw at yr holl 'amodau dan reolaeth' ar gyfer yr aseiniad.

A ddylai tasgau asesu dan reolaeth gael eu gwneud o dan amodau arholiad arferol?

Gall goruchwyliaeth asesiad dan reolaeth fod yn ffurfiol (lefel uchel o reolaeth), anffurfiol (lefel ganolig o reolaeth) neu gyfyngedig (lefel isel o reolaeth), fel sydd wedi cael ei nodi yn y fanyleb berthnasol. Cyfeiriwch at yr adran 'gwybodaeth i aseswyr' yn y briff Aseiniad Model am ragor o wybodaeth.

Faint o adborth a ddylid ei roi i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod asesu dan reolaeth?

Mae hyn yn dibynnu ar y lefel o Reolaeth sydd wedi cael ei nodi yn yr Aseiniad Model. Ar gyfer pynciau gyda lefel uchel o reolaeth (goruchwyliaeth ffurfiol), ni chaniateir arweiniad gan athrawon. Os yw lefel y rheolaeth yn ganolig (goruchwyliaeth anffurfiol), gall athrawon roi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r myfyrwyr ar lefel gyffredinol yn unig. Gall myfyrwyr adolygu gwaith cyn cyflwyno'r darn terfynol. Ni ddylai athrawon roi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn cwrdd â meini prawf asesu. Ni ddylid darparu adborth manwl ar wallau / hepgoriadau.

Cyfeiriwch at yr adran 'gwybodaeth i aseswyr' yn y briff Aseiniad Model am ragor o wybodaeth.

Pa ddeunydd cyfeirio sy'n cael ei ganiatáu yn ystod y sesiynau asesu dan reolaeth?

Bydd hyn yn amrywio yn ôl yr Aseiniad Model. Yn ystod sesiynau rheolaeth uchel, mae'r defnydd o ddeunydd cyfeirio yn cael ei reoli'n dynn ond gall hyn amrywio yn ôl y pwnc. Ar gyfer Aseiniadau Model gyda lefel ganolig o reolaeth (goruchwyliaeth anffurfiol), mae myfyrwyr yn gallu cael mynediad at unrhyw adnoddau printiedig / electronig sydd ar gael o fewn y ganolfan.

Cyfeiriwch at yr adran 'gwybodaeth i'r aseswr' yn y briff Aseiniad Model' am ragor o wybodaeth.

Sut mae'r gwaith yn cael ei asesu?

Bydd y gwaith yn cael ei farcio'n fewnol gan y ganolfan ac yna'n cael ei safoni gan CBAC trwy safoni drwy'r post.

Ble mae cynllun marcio'r asesiad?

Mae'r cynllun marcio neu fandiau perfformiad ar gael yn adran yr uned berthnasol o'r fanyleb. Mae hwn yn rhestru'r meini prawf asesu a sut gall ymgeiswyr gyrraedd Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

Mae taflen gofnodi marciau ar gael yn yr adran dogfennau cysylltiedig ar y dudalen we, a dylid ei chwblhau a'i chyflwyno gyda gwaith y dysgwyr, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.

Sut ydw i'n cyfrifo beth mae'r ymgeisydd wedi'i gyflawni, yn gyfan gwbl, am uned?

Mae cyflawni'r uned yn seiliedig ar allu ymgeisydd i fodloni'r meini prawf asesu. Gellir dyfarnu gradd grynodol Llwyddiant Lefel 1, Llwyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 neu Ragoriaeth Lefel 2.

Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad i alluogi ymgeiswyr i ddangos eu gallu yn erbyn y meini prawf asesu. Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer cyflawni graddau uwch.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 1** ar gyfer uned, rhaid i ymgeiswyr fodloni holl ofynion sylfaenol yr holl feini prawf asesu ar gyfer yr uned, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 1.

Er mwyn cael gradd **Llwyddiant Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni holl ofynion sylfaenol Llwyddiant Lefel 2, fel y'u nodir ym mand perfformiad Llwyddiant Lefel 2.

Er mwyn cael gradd **Teilyngdod Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni holl ofynion sylfaenol Teilyngdod, fel y'u nodir ym mand perfformiad Teilyngdod Lefel 2.

Er mwyn cael gradd **Rhagoriaeth Lefel 2** ar gyfer uned, rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r holl ofynion sylfaenol, fel y'u nodir ym mandiau perfformiad Rhagoriaeth Lefel 2.

A oes rhaid i ni gymedroli'n fewnol?

Disgwylir i ganolfannau gymedroli penderfyniadau asesu mewnol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu barnu i'r un safon gan y gwahanol aseswyr, grwpiau addysgu ac o flwyddyn i flwyddyn. Dylid cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau cymedroli gyda thystiolaeth y dysgwyr. Lle mae mwy nag un aseswr yn gyfrifol, mae'n rhaid i'r ysgol benodi aseswr arweiniol – gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghlŷn â hyn yn Adran Asesu'r fanyleb berthnasol.

Pa ddogfennaeth y mae'n rhaid ei chwblhau?

Mae CBAC wedi creu dogfennaeth y dylid ei chyflwyno ar y cyd â gwaith ymgeiswyr. Mae angen cyflwyno taflen gofnodi marciau ar gyfer pob uned. Mae cofnodion arsylwi a datganiadau tyst hefyd yn gorfod cael eu cyflwyno fel y nodir yn yr Arweiniad i Aseswyr ym mhob briff Aseiniad Model. Gallwch ddod o hyd i gopiâu electronig o'r ddogfennaeth asesu yn yr adran dogfennau cysylltiedig o dan 'Ffurflenni asesiad mewnol'.

Sut ydw i'n cyflwyno marciau fy ymgeiswyr i CBAC?

Mewnbynnir y marciau trwy'r [wefan ddiogel](#) gan ddefnyddio'r Sgrin Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS).

Sut ydw i'n gwybod gwaith pa ymgeiswyr i'w anfon?

Ar ôl i chi gyflwyno marciau i CBAC rydych yn gallu gweld y samplau gofynnol ar IAMIS.

Lle gallaf ddod o hyd i fanylion fy safonwr?

Gallwch ddod o hyd i fanylion safonwr trwy IAMIS, trwy ddewis yr opsiwn Gweld Manylion Safonwr ar y dudalen we. Bydd y rhain ar gael unwaith bydd yr holl ganlyniadau wedi cael eu cyflwyno i CBAC.

Pryd ydw i'n cyflwyno'r gwaith?

Mae'n rhaid i'r safonwr gael y gwaith erbyn **5 Mai** blwyddyn yr asesiad.

A fyddwn yn derbyn adborth am ein gwaith cwrs?

Byddwch yn gallu gweld canlyniadau ac adroddiad eich safonwr ar ddiwrnod canlyniadau. Mewngofnodwch i'r wefan ddiogel ac yna ewch i IAMS.

Ariannu a Mesurau Perfformiad

A yw'r cymwysterau hyn wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru?

Ydynt. Mae Cymwysterau Cymru wedi dynodi'r gyfres o Ddyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol i'w defnyddio yng Nghymru ac maent wedi'u rhestru ar gronfa ddata Cymwysterau Cymru (www.qiw.wales).

A yw'r cymwysterau hyn wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio cyn 16?

Ydynt. Mae'r gyfres o Ddyfarniadau Galwedigaethol a Thystysgrifau Galwedigaethol wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio cyn ac ôl 16.

A oes modd ennill pwyntiau perfformiad am y cymwysterau Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yng Nghymru?

Oes. Mae'r un nifer o bwyntiau perfformiad â'r TGAU ar gael am ein cyfres o Ddyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol

Dyrennir pwyntiau perfformiad ar gyfer y Dyfarniadau Galwedigaethol fel a ganlyn:

Graddfa Raddoli	Pwyntiau Perfformiad	Trothwy L1	Trothwy L2	Trothwy L3
Rhagoriaeth Lefel 2*	58	20	20	0
Rhagoriaeth Lefel 2	52	20	20	0
Teilyngdod Lefel 2	46	20	20	0
Llwyddiant Lefel 2	40	20	20	0
Llwyddiant Lefel 1	25	20	0	0

Dyrennir pwyntiau perfformiad ar gyfer y Tystysgrifau Galwedigaethol fel a ganlyn:

Graddfa Raddoli	Pwyntiau Perfformiad	Trothwy L1	Trothwy L2	Trothwy L3
Rhagoriaeth Lefel 2*	116	40	40	0
Rhagoriaeth Lefel 2	104	40	40	0
Teilyngdod Lefel 2	92	40	40	0
Llwyddiant Lefel 2	80	40	40	0
Llwyddiant Lefel 1	50	40	0	0

Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar gronfa ddata Cymwysterau Cymru (www.qiw.wales) drwy chwilio am y cymhwyster penodol a dewis y tab 'Gwybodaeth Mesuriadau Perfformiad'.

A yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cyfrannu tuag at y Mesurau Cymhwysol Lefel 2 (Bagloriaeth Cymru a Sylfaen)?

Ydy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd uchafswm o ddau gymhwyster galwedigaethol (e.e. dau gymhwyster sy'n cyfateb i faint TGAU neu un cymhwyster maint dau TGAU neu fwy) yn gallu cyfrif tuag at y cymhwyster Bagloriaeth Cymru (ac felly'r mesur cyrhaeddiad Bagloriaeth Cymru). Felly, mae dau o'n Dyfarniadau Galwedigaethol neu un o'r Tystysgrifau Galwedigaethol yn gallu cyfrannu at y mesur.

A yw Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol yn cyfrannu tuag at y sgôr pwyntiau wedi'i gapio (9)?

Ydy. Yn y sgôr pwyntiau wedi'i gapio newydd, bydd yn bosibl i hyd at bedwar cymhwyster (maint TGAU) fod yn alwedigaethol.